



TELERAU AC AMODAU HURIO

- a) Enw'r Huriwr: _____
- b) Cyfeiriad: _____
- c) Rhif ffôn: _____ ch) E-bost: : _____
- d) Dyddiad Hurio: _____
- dd) Amser Hurio: O ____ i ____ . e) Cyfanswm: ____ awr.
- f) Ystafell(oedd) a huriwyd: _____
- ff) Cost Hurio: _____

Blaendal o [awgrymir £25] mewn arian parod yn daladwy ymlaen llaw i gadarnhau'r archeb. Noder mai'r nifer fwyaf o bobl a ganiateir i'r ystafell(oedd) a huriwyd ydy: _____ . Mae'r Cost Hurio llawn i'w dalu 2 wythnos cyn y Dyddiad Hurio, oni bai y cytunir yn wahanol.

Mae'r Cytundeb hwn gydag Ymddiriedolwyr Rheolaethol _____ ("yr Eglwys") ar gyfer hurio'r ystafell(oedd) a nodir uchod yn f) ("yr Eiddo") oddi fewn i'r Eglwys ("yr Adeilad") yn amodol ar y Telerau a'r Amodau Hurio ("yr Amodau Hurio") ar gyfer y cyfnod a nodir yn d) ac dd) uchod ("y Cyfnod Hurio").

Ymrwymiad yr Huriwr

Mae'r Huriwr yn ymrwymo i sicrhau eu bod yn deall yr Amodau Hurio ar gyfer yr amser y maen nhw mewn grym.

Goruchwyliaeth gan yr Huriwr

Mae'r Huriwr yn ymrwymo i fod yn bresennol, neu i drefnu fod digon o gynrychiolaeth o blith oedolion yn bresennol, trwy gydol y Cyfnod Hurio i sicrhau cydymffurfio â'r darpariaethau a'r amodau sydd i'w cael neu y cyfeirir atyn nhw yn yr Amodau Hurio hyn ac unrhyw drwyddedau perthnasol.

Cyfrifoldeb yr Huriwr

Bydd yr Huriwr yn gyfrifol yn ystod y Cyfnod Hurio am: -

- Ymgyswrtio gyda, a chydymffurfio ag, unrhyw ganllawiau a ddarperir ar gyfer defnydd yr Adeilad
- Sicrhau fod yr Adeilad yn cael ei gadw'n ddiogel
- Goruchwyllo defnydd yr Eiddo a gofal ei adeiladwaith a'i gynnwys
- Sicrhau nad ydy pwrpas ac ymarweddiad yr hurio yn amharu ar defnydd unrhyw ystafell arall sy'n cael eu hurio gan bersonau eraill oddi fewn i'r Adeilad



- Sicrhau fod yr Adeilad (gan gynnwys y cyntedd, y gegin, offer y gegin a'r toiledau fel bo'n briodol) yn cael eu gadael yn lân a thaclus gyda'r holl sbwriel yn cael ei symud o'r safle ar ddiwedd y Cyfnod Hurio
- Sicrhau fod yr holl gyfarpar, cadeiriau a byrddau'n cael eu dychwelyd i'r safleoedd storio'n ddiogel, bod dim person ar ôl yn yr Adeilad, pob golau wedi'i ddiffodd, a'r adeilad wedi'i ddiogelu, heblaw am unrhyw gyfleusterau neu ystafell neu fan cyhoeddus sy'n cael eu defnyddio gan bersonau eraill.
- Sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pob un o'u gweithgareddau yn yr Adeilad
- Sicrhau caniatâd ysgrifenedig yr Eglwys ymlaen llaw ar gyfer defnyddio unrhyw osodiadau a ffitiadau dros dro ac hefyd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau Iechyd a Diogelwch, yn enwedig sicrhau nad ydy unrhyw addurniadau a ddefnyddir yn peri perygl tân
- Sicrhau fod unrhyw gyfarpar neu offer trydanol a ddygir i'r Adeilad a'u defnyddio yno wedi'u ardystio'n ddiogel ac yn gweithio'n iawn, ac yn cael eu defnyddio mewn modd diogel
- Sicrhau fod personau sy'n darparu a pharatoi bwyd yn berchen â'r tystysgrifau perthnasol gyda golwg ar hylendid bwyd, a bod cydymffurfio â hyn yn gyfrifoldeb llwyr yr Huriwr os ydy bwyd yn cael ei baratoi a'i weini fel rhan o hurio'r Eiddo
- Sicrhau nad oes yr un anifail (gan gynnwys adar), heblaw am gŵn tywys, yn cael dod i'r Adeilad, heb ganiatâd ysgrifenedig yr Eglwys ymlaen llaw
- Sicrhau NAD oes yr un anifail o gwbl yn cael mynediad i'r gegin ar unrhyw adeg
- Sicrhau na chaiff barbeciws, offer LPG neu sylweddau fflamadwy iawn yn cael eu dwyn i mewn i'r Adeilad

Rheoliadau Tân

Mae'n rhaid i'r Huriwr:

- Sicrhau fod yr arwyddion Allfanfa Brys wedi'u goleuo trwy'r amser
- Sicrhau fod y Frigâd Dân yn cael eu galw i unrhyw ddigwyddiad lle mae achos o dân, waeth pa mor ddinod, a bod yr Eglwys yn cael gwybod y manylion
- Cyn dechrau digwyddiad, nodwch wrth bawb sy'n mynychu'r digwyddiad lle mae'r allanfeydd tân a'r Man Ymgynnull
- Sicrhau bod yr holl allanfeydd tân yn yr Adeilad yn cael eu cadw'n glir bob amser
- Sicrhau nad ydy'r mynedfeydd perthnasol wedi'u blocio gydag eitemau megis bygis, cadeiriau olwyn neu sgwteri symudedd

Y Man Ymgynnull ydy Ni chaiff yr un person dychwelyd i'r Adeilad heb ganiatâd pendant y Frigâd Dân.

Defnydd yr Eiddo

Ni chaiff yr Huriwr: -

- ganiatáu i eraill ddefnyddio'r Eiddo na throsglwyddo'r Cytundeb Hurio hwn at barti arall.



- ddefnyddio'r Eiddo na chaniatáu defnydd o'r Adeilad at unrhyw ddiben anghyfreithlon neu mewn unrhyw fodd anghyfreithlon neu i unrhyw bwrpas yn groes i'r hyn a welir yn yr Amodau Hurio
- wneud unrhyw beth neu ddod ag unrhyw beth i'r Adeilad a all beryglu'r Adeilad neu beri bod unrhyw bolisiau yswiriant sy'n ymwneud â hynny'n annilys
- ganiatáu'r defnydd o gyffuriau yn yr Adeilad
- ganiatáu smygu yn yr Adeilad.
- ganiatáu yfed alcohol yn yr Adeilad
- ganiatáu unrhyw gamblo yn yr Adeilad

Mae'n rhaid i'r Huriwr:

- Beidio â thorri'r gyfraith sy'n ymwneud â hapchwarae, betio a loteris
- Gydymffurfio gyda'r holl amodau a'r rheoliadau sy'n ofynnol yn ôl y Deddfau Trwyddedu, yn enwedig mewn cysylltiad â digwyddiadau sy'n cynnwys dawnsio neu gerddoriaeth, neu ddramâu llwyfan, neu ffilmiau, neu adloniant tebyg.

Parcio Ceir

Gadewir cerbydau ar risg y perchennog a dylid defnyddio unrhyw gyfleusterau parcio yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir.

Cydymffurfio â deddfwriaeth mewn perthynas â phlant neu oedolion bregus

Rhaid i'r Huriwr sicrhau fod unrhyw weithgareddau yn yr Eiddo ar gyfer plant neu oedolion bregus yn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol a dim ond personau addas a phriodol fydd yn cael ymwneud â phlant ac oedolion bregus. **Mae Polisiâu Diogelu Plant ac Oedolion Bregus yn gyfrifoldeb ar yr Huriwr.**

Indemniad

Rhaid i'r Huriwr indemnio a pharhau i indemnio pob un o Ymddiriedolwyr Rheolaethol yr Eglwys, ac Eglwys Bresbyteriaidd Cymru yn erbyn:

- cost atgyweirio unrhyw ddifrod a wneir i unrhyw ran o'r Adeilad, gan gynnwys unrhyw dir cysylltiedig a/neu gynnwys yr Adeilad
- holl gamau, hawliadau, a chostau achosion sy'n codi o dorri'r Amodau Hurio
- holl hawliadau yn ymwneud â iawndal, gan gynnwys iawndal am golli eiddo neu niwed i bersonau, yn codi o ganlyniad i ddefnydd yr Eiddo (gan gynnwys storio offer) gan yr Huriwr

Rhaid riportio unrhyw ddifrod i'r Adeilad i Ymddiriedolwyr Rheolaethol yr Eglwys cyn gynted ag y bo modd. Yn ôl cyfarwyddyd yr Eglwys, os torrir unrhyw un o delerau neu amodau'r cytundeb hwn, neu os oes unrhyw golled neu ddifrod (gan gynnwys difrod damweiniol), fe fydd yr Eglwys yn didynnu'r costau o'r blaendal, a bydd yr Huriwr yn gyfrifo am dalu unrhyw gostau ychwanegol i swm y blaendal.



Yswiriant

Mae'r Huriwr yn gyfrifol am sicrhau fod ganddyn nhw yswiriant atebolrwydd digonol ac addas ar gyfer y gweithgareddau yr ymgwymerir â nhw ac am gydymffurfio â gofynion, telerau ac amodau yswiriant o'r fath.

Damweiniau a Digwyddiadau Peryglus

Mae'n rhaid i'r Huriwr riportio pob damwain sy'n ymwneud â niwed i'r cyhoedd i gynrychiolydd awdurdodedig yr Eglwys cyn gynted ag y bo modd a chwblhau'r adran berthnasol yn y Llyfr Damweiniau. Yr Huriwr sydd i sicrhau bod y cymorth meddygol priodol yn cael ei geisio, neu bod ambiwlans yn cael ei alw.

Yr Huriwr fydd yn gyfrifol am ddarparu swyddogion Cymorth Cyntaf cymwys fel bo'r angen.

Rhaid riportio unrhyw offer sy'n methu, un ai sy'n berchen i'r Eglwys, neu'n cael ei ddwyn i mewn gan yr Huriwr, i gynrychiolydd awdurdodedig yr Eglwys cyn gynted ag y bo modd.

Offer sy'n cael ei storio

Dydy'r Eglwys ddim yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw offer sy'n cael ei storio nag unrhyw eiddo arall sy'n cael ei ddwyn i mewn neu ei adael yn yr Adeilad ac mae pob atebolrwydd am golled neu ddifrod i eitemau o'r fath gan hynny wedi'i eithrio. Rhaid symud pob offer ac eiddo arall, heblaw'r hyn sy'n cael ei storio yn yr Adeilad gyda chaniatâd ysgrifenedig yr Eglwys, ar ddiwedd pob cyfnod hurio neu storio. Caiff yr Eglwys waredu unrhyw eitemau o'r fath 7 niwrnod wedi hynny yn ôl ei doethineb, trwy eu gwerthu neu fel arall ar delerau ac amodau sy'n briodol iddi a chodi tâl ar yr Huriwr am ffioedd storio a chostau a ddaw yn sgil storio a gwerthu neu fel arall eu gwaredu.

Dim newidiadau

Ni cheir gwneud unrhyw newidiadau nac ychwanegiadau i'r Adeilad, na ffitio unrhyw osodiadau, na phlacardiau, na glynu neu gysylltu unrhyw eitemau eraill mewn unrhyw fodd i unrhyw ran o'r Adeilad heb ganiatâd ysgrifenedig yr Eglwys ymlaen llaw.

Derbyn

Byddai'r Amodau Hurio hyn wedi bod ar gael i'r Huriwr ar adeg gwneud yr archeb. Trwy barhau â'r archeb, bernir bod yr Huriwr wedi derbyn yr Amodau Hurio.

Canslo

Gellir canslo hyd at bythefnos cyn y Dyddiad Hurio a derbyn y Blaendal yn ôl yn llawn.



Gwasanaethau Ychwanegol

Darparu Organydd/Pianydd/Gweinidog trwy gytundeb ar wahân.

Llofnodi, printio a dyddio ar ran Eglwys

Llofnod _____ Printiwch eich Enw _____
Dyddiad _____

Llofnodi, printio a dyddio ar ran yr Huriwr

Llofnod _____ Printiwch eich Enw _____
Dyddiad _____